

# Dyfarnu cymwysterau cyffredinol yn haf 2020

## Trosolwg



Awst 2020

**Ar 17 Awst 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y bydd dysgwyr yng Nghymru yn cael eu graddau asesu canolfan, yn dilyn newidiadau mewn awdurdodaethau eraill. Mewn ymateb, rydym wedi rhoi cyfarwyddyd i CBAC ddyfarnu graddau asesu canolfannau i ddysgwyr ar gyfer cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. (17 Awst 2020)**

**Nid yw'r wybodaeth yn y ddogfen hon wedi cael ei diweddarau i gynrychioli unrhyw newidiadau mewn polisi.**

**Mae'r Trosolwg hwn o ganlyniadau UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch/Trosolwg o ddyfarnu Cymwysterau Cyffredinol yng Nghymru yn haf 2020 yn cynnwys gwybodaeth sy'n disgrifio'r canlyniadau a roddwyd i ganolfannau yn barod ar gyfer diwrnod cyhoeddi canlyniadau ar 13 Awst. Ers ysgrifennu, mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi Cyfarwyddyd i Cymwysterau Cymru gyflwyno rheol sy'n atal dysgwyr Safon Uwch rhag derbyn gradd sy'n is na'u gradd UG yn y pwnc hwnnw. Bydd y wybodaeth yn y ddogfen hon yn cael ei ddiweddarau maes o law i gynrychioli'r newid polisi hwn yn gywir. (13 Awst 2020)**

## Cynnwys

<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
<b>Cefndir</b>	<b>4</b>
<b>Ein dull</b>	<b>5</b>
<b>Gwybodaeth i ysgolion a cholegau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau</b>	<b>6</b>
<b>Ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer haf 2020</b>	<b>7</b>
<b>Fframwaith rheoleiddio arbennig</b>	<b>8</b>
<b>Apeliadau</b>	<b>9</b>
<b>Cofrestriadau</b>	<b>9-10</b>
TGAU	9
UG	10
Safon Uwch	10
<b>Trosolwg ar haf 2020</b>	<b>10</b>
<b>Datblygu'r dull o safoni</b>	<b>11-16</b>
Safon Uwch – haf 2020	13
Safon UG – haf 2020	14
TGAU – haf 2020	14
Tystysygrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru	15
Monitro prosesau gwneud penderfyniadau am gymwysterau	16
<b>Canlyniadau</b>	<b>16</b>
<b>Sut wnaethon ni gyfathrebu</b>	<b>17-18</b>
<b>Beth nesaf? – Ymagwedd at 2020/2021</b>	<b>18</b>
Cyfres Tachwedd 2020	18
Cyfres Haf 2021	19

## Cyflwyniad

Mae pandemig y coronafeirws (COVID-19) wedi cael effaith sylweddol ar gymwysterau cyffredinol (GQ), sy'n cynnwys TGAU, UG a Safon Uwch, yn haf 2020. Arweiniodd at gau ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill a chanslo arholiadau ledled y DU.

Yng Nghymru, darperir cymwysterau cymeradwy<sup>1</sup> gan fwrdd arholi CBAC. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru. Yn 2019, cyhoeddwyd 305,135 o dystysgrifau ar gyfer TGAU, 41,435 ar gyfer UG a 32,410 ar gyfer Safon Uwch yng Nghymru. Lle mae pwnc heb gymhwyster cymeradwy, gall ysgolion a gynhelir yng Nghymru ddefnyddio cymwysterau a ddyluniwyd ar gyfer Lloegr. Gall y sector annibynnol yng Nghymru gymryd cymwysterau a ddyluniwyd ar gyfer Cymru neu Loegr. Mae CBAC hefyd yn cynnig cymwysterau i ddysgwyr y tu allan i Gymru trwy eu brand Eduqas.

Mae cymwysterau cyffredinol yn cynorthwyo dilyniant i ddysgu mewn addysg bellach (AB) neu addysg uwch (AU). Ceisiodd ein dull leihau effaith y pandemig ar ddysgwyr oedd i gwblhau eu cymwysterau yn haf 2020 a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, galluogi dysgwyr i symud ymlaen i gam nesaf eu dysgu neu eu gyrfa.

---

<sup>1</sup> Mae cymwysterau cymeradwy wedi bodloni meini prawf cymeradwyo cymwysterau penodol sy'n sicrhau eu bod yn diwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru.

## Cefndir

Ar 18 Mawrth 2020, er mwyn helpu i frwydro yn erbyn lledaeniad y coronafeirws (COVID-19), cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru y dylid cau ysgolion a chanslo cyfres arholiadau haf 2020.

Ar 24 Ebrill 2020, rhoddodd y Gweinidog Addysg [Gyfarwyddyd](#) i Cymwysterau Cymru. Roedd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Cymwysterau Cymru ystyried:

- Polisi Llywodraeth Cymru y dylai dysgwyr a oedd yn disgwyl cwblhau asesiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol rhwng 20 Mawrth a 31 Gorffennaf, gael canlyniadau wedi'u cyfrifo ar gyfer y cymwysterau hynny, cyn belled â'i bod yn bosibl.
- Polisi Llywodraeth Cymru y dylai dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol gael eu trin yn deg, gan dderbyn canlyniadau sy'n adlewyrchu'r gwaith y maent wedi'i wneud a'u cyrhaeddiad cronol mewn perthynas â'u cymwysterau.
- Polisi Llywodraeth Cymru na ddylai dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau cyffredinol fod o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion sy'n astudio cymwysterau galwedigaethol, neu eu cyfoedion sy'n astudio cymwysterau mewn gwahanol awdurdodaethau o ran gallu symud ymlaen i gam nesaf y dysgu, cyn belled â'i bod yn bosibl,
- Polisi Llywodraeth Cymru fod dull teg a chadarn at bennu canlyniadau ar gyfer dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau cyffredinol yn cael ei roi ar waith. Mae'r polisi'n cynnwys pennu'r dull y mae'n rhaid i gyrff dyfarnu ac ysgolion a cholegau ei ddilyn i ddod at benderfyniad am gyrraeddiad dysgwyr yn ogystal â sicrhau bod llwybr ar gael ar gyfer y dysgwyr hynny nad ydynt o'r farn bod y broses wedi'i dilyn yn gywir wrth gyhoeddi eu canlyniadau.

Buom yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a CBAC i roi trefniadau ar waith ar gyfer haf 2020 er mwyn i ddysgwyr gael graddau, fel yr eglurir yn y [ffeithlun](#) hwn. Gwnaethom hefyd ymgysylltu â chyd-reoleiddwyr sef Ofqual (yn Lloegr) a CCEA Regulation (yng Ngogledd Iwerddon) i sicrhau bod y dull a gymerwyd yng Nghymru yn gyson â'r dull a gymerwyd ar gyfer cymwysterau cyffredinol mewn rhannau eraill o'r DU, lle'r oedd hyn yn briodol. Roeddem am sicrhau nad oedd dysgwyr yng Nghymru'n cael mantais neu fod o dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion mewn manau eraill.

## Ein dull

Mae mwyafrif y dysgwyr yng Nghymru yn cymryd GQ cymeradwy Cymru yn unig a ddyfernir gan CBAC. Mae 32 TGAU, 29 lefel UG, 29 Safon Uwch, tair Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru a nifer o gymwysterau etifeddol<sup>2</sup>. Dyfernir nifer fach o gymwysterau cyffredinol gan gyrff dyfarnu eraill sy'n gweithredu y tu allan i Gymru. Er ein bod yn rheoleiddio'r cymwysterau hynny, maent yn dilyn y rheoliadau a osodwyd gan Ofqual gan eu bod wedi'u cynllunio'n bennaf ar gyfer Lloegr.

Fel rheoleiddiwr mae'n ddyletswydd arnom i ystyried y baich rydyn ni'n ei roi ar y cyrff dyfarnu rydyn ni'n eu rheoleiddio. Wrth gynllunio ar gyfer, a chytuno ar drefniadau ar gyfer haf 2020, rydym wedi gweithio'n agos gyda CBAC i sicrhau, cyn belled ag y bo modd, bod ein penderfyniadau yn hylaw ac yn gyflawnadwy fel y byddai dysgwyr yn derbyn graddau ar y diwrnodau canlyniadau arferol.

---

<sup>2</sup> CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

## Gwybodaeth i ysgolion a cholegau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau

Yn absenoldeb asesiadau yn haf 2020, roedd angen datblygu prosesau i gyfrifo graddau cymhwysterau. Gwnaethom gyhoeddi [canllawiau](#) i ysgolion a cholegau ar 3 Ebrill 2020, gan amlinellu'r data yr oedd angen iddynt ei gyflwyno i CBAC i gefnogi'r broses hon. Roedd angen dau ddarn o ddata ar gyfer pob dysgwr a gofrestrwyd ymhob cymhwyster mewn ysgol neu goleg ac roedd yn ofynnol i Benaethiaid Canolfan lofnodi datganiad wrth gyflwyno'r data. Y data i'w gyflwyno oedd:

- Gradd Asesu Canolfan (GAC) a oedd yn ddyfarniad proffesiynol, cyfannol o'r radd y byddai dysgwr yn fwyaf tebygol o'i chyflawni, pe bai wedi gallu sefyll yr arholiadau'r haf hwn, a
- safle i bob dysgwr mewn trefn restrol sengl ar gyfer pob cymhwyster ymhob ysgol neu goleg.

Yn y canllawiau hyn, gwnaethom ddarparu cyngor ar yr ystod o dystiolaeth y gellid ei defnyddio i lywio GAC ar gyfer pob dysgwr. Roedd hyn yn cynnwys: cofnodion o berfformiad dysgwyr mewn asesiadau parhaus a gwaith dosbarth, gan gynnwys gwaith ymarferol, asesiadau ffurfiol a ffug arholiadau, perfformiad ar asesiad heblaw arholiad ac unrhyw ganlyniadau a gyflawnwyd eisoes. Yn dilyn hynny, darparodd CBAC ganllawiau mwy penodol ar gyfer pob cymhwyster. Oherwydd anghysondebau tebygol yn y ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion a cholegau i bennu GACau ar gyfer pob dysgwr, gwnaethom farnu ei bod yn well ystyried y wybodaeth fel rhan o farn gyfannol am ddysgwr. Roedd ein canllawiau hefyd yn cynnwys cyngor ar GACau ar gyfer dysgwyr gyda threfniadau mynediad cytunedig, er enghraifft dysgwyr ag anableddau.

Nododd ein canllawiau y byddai angen proses safoni<sup>3</sup> ystadegol i gynhyrchu'r graddau wedi'u cyfrifo'r haf hwn. Gwnaeth yn glir hefyd y byddai'r GACau a gyflwynwyd gan ysgolion a cholegau yn ddarostyngedig i'r prosesau hyn, ac, felly, yn debygol o newid.

Yn olaf, rhoddodd y canllawiau gyngor cynnar ynghylch apeliadau.

Gwnaethom gyhoeddi [diweddariad](#) i'n canllawiau ar 18 Mai 2020, a oedd yn cynnwys tri newid:

- Nodyn yn atgoffa Penaethiaid Canolfan o'r gofyniad oedd eisoes ar waith i sicrhau bod prosesau'n cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a'r angen i roi sylw dyledus iddo
- Cyngor bod ysgolion a cholegau yn cadw cofnod ysgrifenedig manwl o'r broses a ddefnyddiwyd i gynhyrchu GACau a threfn restrol ar gyfer pob cymhwyster, a
- Fel rhan o ddatganiad Pennaeth y Ganolfan, yr angen i gadarnhau bod cywirdeb y data wedi'i wirio.

---

<sup>3</sup> Gweler tudalen 11.

## Ymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer haf 2020

Gwnaethom [ymgynggori](#) ar drefniadau ar gyfer haf 2020 am gyfnod o bythefnos rhwng dydd Mawrth 22 Ebrill a dydd Mercher 13 Mai 2020. Gwnaethom ymgynghori ar gynigion yn ymwneud â dwy agwedd allweddol ar y trefniadau. Yn gyntaf, y nodau a fyddai'n sail i'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau i ddysgwyr yr haf hwn, ac yn ail, y broses apelio benodol ar gyfer yr haf hwn.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gwnaethom gynhyrchu asesiad effaith integredig yn gofyn am farn ar effaith ein cynigion, gan gynnwys yr effaith ar y dysgwyr hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig, ac ar y Gymraeg.

Fel corff cyhoeddus, mae gennym hefyd ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i roi sylw dyledus, wrth gyflawni ein swyddogaethau, i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, yn enwedig yn erbyn y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig. Yn unol â'r ddyletswydd hon, rydym wedi cynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ar ein cynigion yr haf hwn.

Yn sgil ein trefniadau arfaethedig i ganiatáu i ganlyniadau gael eu rhoi i ddysgwyr mewn modd amserol yr haf hwn, cododd nifer o bryderon ynghylch effaith negyddol bosibl ar ystod o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig penodol. Deuai'r pryderon hyn yn fras o dan y themâu canlynol:

- gall data asesu canolfan wahaniaethu'n systematig yn erbyn grwpiau o ddysgwyr
- ni fydd rhai dysgwyr (ymgeiswyr preifat<sup>4</sup>) yn gallu derbyn gradd.

Mewn ymateb, gwnaethom ddiweddarau ein canllawiau i ysgolion a cholegau i gynnwys cyfeiriadau at y PSED, gan eu hatgoffa o'u rhwymedigaethau wrth bennu GACau, a threfn restrol ar gyfer pob dysgwr. Darparodd CBAC ganllawiau ychwanegol hefyd ynghylch cyflwyno data.

Yn gyson â'n nod o gymeradwyo model sy'n rhagfynegi'n gywir raddau dysgwyr, rydym wedi monitro effaith y dull safoni ar raddau dysgwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Gwnaethom sicrhau bod data asesu'r ganolfan yn cael ei wirio cyn gynted â phosibl ar ôl iddo gael ei ddarparu a defnyddio data Llywodraeth Cymru i weld a oedd tystiolaeth bod bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â nodweddion dysgwyr wedi newid yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mewn rhai achosion, nid oedd ysgolion neu golegau'n gallu darparu'r ddau ddarn o ddata sy'n ofynnol ar gyfer ymgeiswyr preifat a gofrestrwyd gyda nhw yn wreiddiol. Roedd hyn oherwydd nad oedd ganddynt wybodaeth berthnasol ddigonol i lunio barn broffesiynol ar

---

<sup>4</sup> Dysgwr nad oes Canolfan Berthnasol mewn perthynas ag ef sydd wedi prynu'r Cymhwyster GQ ar ran y Dysgwr, ac wedi cyfrannu'n sylweddol at baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad (p'un ai trwy addysgu neu gyfarwyddyd a ddarperir gan Athrawon a gyflogir gan y ganolfan neu fel arall).



y radd debygol y byddai'r ymgeisydd preifat yn ei chyflawni pe bai wedi sefyll yr arholiadau'r haf hwn. Yn dilyn ein hymgyngoriad, gwnaethom benderfyniad i ganiatáu eithriad i'r dysgwyr hynny lle'r oedd tystiolaeth sylweddol eisoes ar waith gyda CBAC o gyrhaeddiad blaenorol yn yr un cymhwyster ac amlinellir hyn yn ein [Datganiad Polisi Ymgeiswyr Preifat](#). Cynhyrchwyd gradd wedi'i chyfrifo ar gyfer unrhyw ymgeiswyr preifat a oedd wedi sefyll cyfran ddigonol o'r cymhwyster mewn cyfres arholiadau flaenorol. Roedd hyn yn golygu y byddai'r mwyafrif o ymgeiswyr preifat yn derbyn gradd wedi'i chyfrifo. Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymgeiswyr preifat<sup>5</sup> o hyd nad oeddent yn gymwys ar gyfer y dull hwn ac felly nad ydynt wedi derbyn gradd wedi'i chyfrifo'r haf hwn.

## Fframwaith rheoleiddio arbennig

Ar 29 Mehefin 2020, gwnaethom sefydlu [Fframwaith Rheoleiddio Arbennig ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol ar gyfer haf 2020](#)<sup>6</sup>. Gwnaethom gyhoeddi'r fframwaith terfynol a'r [penderfyniadau ymgynghori](#) ar 29 Mehefin 2020. Gwnaethom gynnal [gweminar](#) gyhoeddus i amlinellu canfyddiadau a phenderfyniadau ein hymgyngoriad. Mynychodd mwy na 300 o bobl ac roeddent yn gallu cyflwyno cwestiynau ysgrifenedig. Mae [crynodedb](#) o'r cwestiynau a'r ymatebion hynny ar gael ar ein gwefan, ynghyd â recordiad o'r weminar.

Dyma'r nodau terfynol y cytunwyd arnynt fel sail i'r model safoni ystadegol:

1. Byddai dysgwyr y cyflwynir GAC lefel cymhwyster a threfn restrol iddynt yn derbyn gradd.
2. Byddai'r canlyniadau cenedlaethol yn debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol i leihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser ac i gynnal hyder y cyhoedd.
3. Cyn belled ag y bo modd, ni fyddai'r broses ar gyfer dyfarnu graddau yn rhoi dysgwyr o dan fantais nac anfantais systematig, gan gynnwys y rhai â nodweddion a warchodir gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb.
4. Byddai'r model safoni ystadegol yn defnyddio ystod o dystiolaeth i gyfrifo'r graddau y byddai dysgwyr wedi bod yn debygol o'u cyflawni, pe baent wedi gallu cwblhau eu hasesiadau.

---

<sup>5</sup> 28

<sup>6</sup> Cynhaliodd Ofqual ymgynghoriad ar eu fframwaith rheoleiddio eithriadol GQ arfaethedig ar gyfer haf 2020. Cyhoeddwyd y fframwaith terfynol, a phenderfyniadau ymgynghori gan Ofqual ar 11 Mehefin 2020

## Apeliadau

Gwnaethom hefyd ymgynghori ar fanylion proses apelio ar gyfer haf 2020. Ni all y broses [apelio](#) weithio yn y ffordd arferol yr haf hwn oherwydd nad oes proses farcio i apelio yn ei herbyn. Fodd bynnag, bydd ysgolion a cholegau yn gallu apelio i CBAC ar y sail bod data anghywir wedi'i ddefnyddio wrth gyfrifo gradd, bod y graddau wedi'u cyfrifo a gynhyrchwyd gan y model safoni ystadegol wedi'u dyrannu neu eu cyfleu yn anghywir a/neu bod rhyw fethiant gweithdrefnol arall ar ran CBAC.

Nid yw'n ofynnol i CBAC dderbyn apeliadau a gyflwynir gan ddysgwyr unigol neu eu cynrychiolwyr<sup>7</sup>. Ni chaniateir apeliadau sy'n ymwneud â dyfarniadau proffesiynol athrawon mewn perthynas â graddau wedi'u cyfrifo, cyhyd â bod y dyfarniadau hynny'n cael eu llunio yn unol â'r weithdrefn a nodwyd gan CBAC. Os yw dysgwr yn pryderu bod tuedd neu wahaniaethu yn y modd y mae'r ysgol neu'r coleg wedi dilyn y broses, dylent gyflwyno cwyn i'r ysgol neu'r coleg yn y lle cyntaf. Lle mae gan y dysgwr dystiolaeth gredadwy nad oedd graddau wedi'u seilio ar ddyfarniadau gwrthrychol, gan arwain at duedd neu wahaniaethu, gallant gysylltu â CBAC. Gall dysgwyr sydd â phryderon o'r fath hefyd godi'r rhain gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC).

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnig cam apelio terfynol, trwy'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi, ar gyfer apelyddion nad ydynt o'r farn bod CBAC wedi dilyn y broses gywir wrth ddelio â'u hapêl. Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth am y broses [apelio](#) a fydd ar gael yr haf hwn.

## Cofrestriadau

Er gwaethaf yr amgylchiadau unigryw sy'n gysylltiedig â chyfres arholiadau haf 2020 a achoswyd gan bandemig COVID-19, casglwyd data cofrestriadau dros dro fel arfer a'u cyhoeddi fel [Ystadegau Swyddogol](#). Mae'r ffigurau hyn yn ddangosyddion defnyddiol o newidiadau posibl mewn canlyniadau oherwydd amrywiadau yn nifer y cofrestriadau o flwyddyn i flwyddyn.

### TGAU

Roedd 307,925 o gofrestrïadau TGAU ar gyfer haf 2020. Mae hyn yn gynydd o 0.7% o gymharu â'r cofrestriadau TGAU ar gyfer haf 2019. Cofrestriadau Blwyddyn 11 oedd y mwyafrif o'r holl gofrestrïadau TGAU ar gyfer haf 2020 gydag 88.9% yn ddysgwyr Blwyddyn 11. Mae'r gyfran hon yn ddigyfnewid ers yr haf diwethaf.

Roedd gan Flwyddyn 9 neu'n is, Blwyddyn 10 a Blwyddyn 12 gynydd cyfrannol mewn cofrestriadau TGAU yr haf hwn o gymharu â llynedd. Er gwaethaf y cynnydd cyffredinol, gwelwyd gostyngiad bach o 0.1% yng nghofrestriadau Blwyddyn 11 o gymharu â haf 2019. Roedd tri cham o gymwysterau TGAU diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn cael eu dyfarnu'r haf hwn. Roedd 291,995 (94.8%) o gyfanswm cofrestriadau haf 2020 ar gyfer y cymwysterau diwygiedig hyn.

<sup>7</sup> Yr unig eithriad fydd os mai dyma'r unig ffordd i sicrhau apêl effeithiol lle nad yw dysgwyr yn gysylltiedig ag ysgol neu goleg, fel ymgeiswyr preifat.

## UG

Cafwyd 42,445 o gofrestriadau safon UG ar gyfer haf 2020 yng Nghymru, 1.9% yn fwy na haf 2019 (41,645 o gofrestriadau). Mae'r cynnydd hwn yn atal y gostyngiad cyson a welwyd ers haf 2015, pan gafwyd 57,030 o gofrestriadau ar gyfer safon UG. Gwelwyd y nifer fwyaf o gofrestriadau ym Mlwyddyn 12, gyda 32,985 o gofrestriadau yn haf 2020. Gwelwyd cynnydd o 3.5% yng nghofrestriadau safon UG ym mlwyddyn 12 o gymharu â haf 2019, tra gwelodd yr holl grwpiau blwyddyn eraill ostyngiadau cyfrannol. Roedd 40,760 (96.0%) o gyfanswm cofrestriadau haf 2020 ar gyfer cymwysterau diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru.

## Safon Uwch

Cafwyd 31,095 o gofrestriadau Safon Uwch ar gyfer haf 2020, 4.5 % yn is nag ar gyfer haf 2019 (32,580 o gofrestriadau). Mae nifer y cofrestriadau Safon Uwch yng Nghymru wedi bod yn gostwng yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ers haf 2015, pan gafwyd 38,480 o gofrestriadau. Mae cofrestriadau blwyddyn 13 wedi gostwng 4.4% yn haf 2020 (26,930 o gofrestriadau) o gymharu â haf 2019 (28,165 o gofrestriadau). Gwelodd yr holl grwpiau blwyddyn eraill ostyngiad hefyd o gymharu ag haf 2019. Roedd 27,735 (89.2%) o gofrestriadau o gyfanswm ceisiadau haf 2020 ar gyfer cymwysterau diwygiedig a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru.

## Trosolwg ar haf 2020

Gwnaethom gynnal cyfarfodydd adolygu gyda CBAC, bob wythnos o leiaf, i ddeall sut roedd y Fframwaith Rheoleiddio Arbennig yn cael ei weithredu, ac i geisio sicrwydd ynghylch sut roedd risgiau a allai effeithio ar gyflawni canlyniadau'r haf hwn yn cael eu rheoli.

Gofynnwyd i CBAC ein diweddarar ar y cynnydd o ran casglu a phrosesu GACau a gofynnwyd hefyd am sicrwydd y byddai'r canlyniadau cywir yn cael eu cyhoeddi mewn modd amserol.

## Datblygu'r dull o safoni

Roedd angen i'r graddau a gyhoeddwyd yr haf hwn fod mor deg â phosibl. Dangosodd ein dadansoddiad o'r GACau eu bod yn hael ac roedd tystiolaeth hefyd o anghysondeb rhwng canolfannau arholi. Cynhaliodd pob ysgol neu goleg eu proses eu hunain i gynhyrchu'r GAC ac roedd yn afresymol disgwyl y byddai athrawon mewn gwahanol ganolfannau ledled y wlad yn llunio dyfarniadau a oedd yn union gyson â'i gilydd. Yn yr amser a oedd ar gael, nid oedd digon o amser i weithredu hyfforddiant ychwaith. Er mwyn i'r graddau terfynol a ddyfarnwyd fod mor deg â phosibl, roedd angen proses safoni. Byddai hyn yn golygu y gellid cyfrifo graddau fel nad oedd unrhyw fantais nac anfantais i ddysgwyr mewn gwahanol ysgolion neu golegau, nac i ddysgwyr mewn carfannau blaenorol neu yn y dyfodol, ac ar lefel genedlaethol, byddai'r canlyniadau'n debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd eraill. Buom yn gweithio gyda CBAC i nodi'r dull a fyddai'n defnyddio'r cyfuniad gorau o dystiolaeth sydd ar gael o dan yr amgylchiadau anghyffredin hyn.

Fel yr amlinellwyd yn gynharach, darparodd pob ysgol neu goleg GAC a threfn restrol i CBAC ar gyfer pob dysgwr sy'n astudio cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif Her Sgiliau. Yn dilyn y broses honno, roedd dau brif gam i safoni:

- **Cam 1: Cyfrifo graddau ar gyfer dysgwyr ym mhob canolfan.** Cyfrifodd CBAC set o raddau ar gyfer pob ysgol neu goleg
- **Cam 2: Dyrannu graddau i ddysgwyr unigol.** Dyrannodd CBAC y set o raddau o gam 1 i ddysgwyr unigol gan ddefnyddio'r drefn restrol a ddarparwyd gan athrawon yn yr ysgol neu'r coleg

Y cyfuniad o'r dystiolaeth yn y ddau gam uchod yw cryfder y dull gweithredu sydd:

- Wedi caniatáu i'r rhai nad oedd modd eu cynnwys yng nghanam 1, e.e. dysgwyr heb dystiolaeth cyrhaeddiad blaenorol, i dderbyn gradd.
- Wedi dileu'r ddibyniaeth ar fodel ystadegol i wahaniaethu'n gywir rhwng dysgwyr unigol
- Wedi cynnwys gwybodaeth o ddyfarniadau athrawon a fyddai wedi bod yn seiliedig ar berfformiad diweddaraf/ mwy diweddar dysgwyr. Mae ymchwil hefyd yn dangos bod athrawon yn dda am roi dysgwyr mewn trefn restrol<sup>8</sup>.

Ymchwiliodd CBAC i ddulliau amrywiol, gan weithio'n agos gyda chydweithwyr mewn cyrff dyfarnu eraill a gyda rheoleiddwyr eraill. Treialwyd a phrofwyd nifer o ddulliau model (ac amrywiadau o'r rheini) gan ddefnyddio data o'r blynyddoedd diwethaf. Defnyddiwyd data o 2017 a 2018 i ragfynegi graddau yn 2019 a phrofi cywirdeb modelau amrywiol. Y nod oedd defnyddio'r dull a oedd fwyaf cywir a dilys ar draws cymwysterau.

<sup>8</sup> Tim Gill, Methods used by teachers to predict final A-level grades for their students. *Research Matters: a Cambridge Assessment publication*, 28 (Hydref 2019), tt.33-42

Cyflwynwyd dulliau arfaethedig CBAC ar gyfer safoni cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgil Bagloriaeth Cymru i Fwrdd Cymwysterau Cymru dros nifer o gyfarfodydd arbennig. Cymeradwywyd y modelau safoni a ddatblygwyd ac a gynigiwyd gan CBAC ar ôl ystyried eu heffeithiau yn ofalus ac, mewn rhai achosion, ar ôl i CBAC ddarparu gwybodaeth ac eglurhad ychwanegol. Cyfeirir at y modelau fel [Model 1](#) a [Model 2](#). I grynhoi, defnyddir Model 1 ar gyfer cymwysterau unedol lle'r oedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr a oedd wedi cofrestru ar gyfer haf 2020 wedi sefyll yr uned a lle mae'r uned honno'n rhan sylweddol o'r cymhwyster. Cymwysterau llinol neu gymwysterau unedol heb ddigon o unedau wedi'u sefyll gan y garfan.


## Model 1

### Ar gyfer pob cymhwyster ym mhob canolfan, rhagwelir y radd fwyaf tebygol ar gyfer pob dysgwr

Mae canlyniadau uned blaenorol y dysgwr yn cael eu cymharu â dosbarthiad canlyniadau uned i weld ble mae'r dysgwr arni mewn perthynas â dysgwyr eraill. Yn yr achos hwn mae canlyniadau uned y dysgwr wedi'i rhoi hi yn y 90<sup>ain</sup> canradd h.y. y 10% uchaf

Nesaf, mae'r 90ain canradd hyn yn cael ei fapio i'r berthynas rhwng yr uned honno a deilliannau cymwysterau mewn cyfresi blaenorol. Mae hyn yn rhagfynegi'r radd fwyaf tebygol.

Enillodd y 90 canradd o ddysgwyr yn y blynyddoedd blaenorol radd B, felly ychwanegir y radd hon at y pot o raddau ar gyfer yr ysgol/coleg.



Caiff y graddau eu dyrannu i ddysgwyr gan ddefnyddio'r drefn restrol a ddarparwyd gan y ganolfan

## Model 2


Nesaf, mae data o brofion, asesiadau athrawon a chymwysterau cynharach yn cael ei ddefnyddio i weld a oes gan ddysgwyr yr ysgol eleni allu uwch neu is nag yn y data hanesyddol.

Defnyddir data hanesyddol i ddod o hyd i'r set o raddau sy'n nodweddiadol ar gyfer yr ysgol/coleg.

Canlyniadau Cyfartalog y Ganolfan



Canlyniadau 2020 y Ganolfan



Caiff y data hanesyddol ei addasu i ystyried gallu'r cohort presennol a chael set o raddau ar gyfer yr ysgol/coleg.

**Caiff y graddau eu dyrannu i ddysgwyr gan ddefnyddio'r drefn restrol a ddarparwyd gan y ganolfan**

Amlinellir y dull olaf o gyfrifo graddau ar gyfer pob math o gymhwyster yr haf hwn isod.

### Safon Uwch – haf 2020

Yng Nghymru, mae'r cymhwyster UG yn cyfrannu 40% o'r marciau asesu i'r Safon Uwch llawn. Mae hyn yn golygu bod tystiolaeth dda iawn o gyrhaeddiad blaenorol o fewn y cymhwyster sydd ar gael, a fyddai wedi cyfrannu at raddau'r dysgwyr a oedd i fod i sefyll Safon Uwch yr haf hwn.

Defnyddiwyd Model 1 gan CBAC i gyfrifo graddau Safon Uwch. Cyfrifodd CBAC y radd Safon Uwch fwyaf tebygol y byddai dysgwr yn ei chael yn seiliedig ar eu perfformiad yn yr unedau UG a'r berthynas ystadegol hysbys â pherfformiad uned A2. Mae'r dull hwn yn debyg i'r dull a gymerir pan fydd dysgwyr yn absennol ar gyfer rhai arholiadau mewn cyfres arholiadau. Fe greodd y cam hwn yn y broses, cam 1, set o ganlyniadau ar gyfer pob cymhwyster ymhob ysgol neu goleg. Yng ngham olaf y broses, cam 2, dyrannwyd y set o ganlyniadau i ddysgwyr yn ôl trefn restrol dysgwyr a gyflwynwyd gan ysgolion a cholegau. Roedd hyn yn golygu bod y graddau a gyfrifwyd yn derfynol yn ystyried perfformiad blaenorol ar lefel UG, a barn athrawon mewn ysgol neu goleg mewn perthynas â dysgwyr unigol. Mae'r dull yn cynnwys 'gwiriad' i atal unrhyw ddysgwr rhag cael gradd yn is nag yr oeddent eisoes wedi 'bancio'.

Gwnaethom gymeradwyo'r dull hwn i'w ddefnyddio yng Nghymru oherwydd bod canlyniadau UG yn ffynhonnell ddibynadwy o dystiolaeth o gyrhaeddiad blaenorol. Cadarnhaodd profion ar gywirdeb y dull hwn gan ddefnyddio data hanesyddol fod hwn yn ddull cywir. Dim ond pan fydd cymwysterau UG yn cyfrannu at y radd Safon Uwch y gellir defnyddio'r dull hwn.

## Safon UG – haf 2020

Ar lefel UG, defnyddiwyd Model 2. Roedd cam 1 y broses yn defnyddio perfformiad hanesyddol y ganolfan dros ddwy i dair blynedd i gyfrifo set o raddau ar gyfer yr ysgol neu'r coleg. Yna addaswyd hyn gan ddefnyddio data TGAU cymedrig i roi cyfrif am allu'r garfan bresennol. Yng ngham 2, dyrannwyd y graddau i ddysgwyr yn ôl y drefn restrol a ddarparwyd, fel ar gyfer Safon Uwch. Mae hwn yn ddull tebyg i'r un a ddefnyddir ar gyfer pob cymhwyster TGAU, lefel UG a Safon Uwch yn Lloegr a lefelau UG yng Ngogledd Iwerddon.

## TGAU – haf 2020

Ar gyfer y mwyafrif o gymwysterau TGAU, defnyddiwyd Model 2. Gwnaethom gefnogi'r gwaith datblygu trwy ymchwilio i'r berthynas rhwng data o asesiadau cenedlaethol cam allweddol 2 ac asesiadau cenedlaethol cam allweddol 3 gyda chanlyniadau TGAU. Gwelsom nad oedd defnyddio data asesu athrawon cam allweddol 2 yn ychwanegu llawer o werth rhagfynegol. Fodd bynnag, gwelsom fod mesur o berfformiad cyfartalog ar draws holl brofion cenedlaethol blwyddyn 9 ac asesiadau athrawon o gam allweddol 3 yn gysylltiedig yn gryf â chanlyniadau TGAU, ac yn rhagfynegol ohonynt<sup>9</sup>. Gwnaethom ddadansoddi'r data profion cenedlaethol ac asesiadau athrawon i ganfod a oedd unrhyw duedd mewn perthynas â nodweddion dysgwyr. Canfu dadansoddiad cychwynol a oedd yn cymharu canlyniadau mewn modd syml heb reoli ar gyfer cyrhaeddiad diweddarach (canlyniadau TGAU), bod rhai gwahaniaethau yn ôl nodweddion dysgwyr. Fodd bynnag, roedd y gwahaniaethau hyn yn gynnil, ac roedd gorgyffwrdd sylweddol rhyngddynt. Yna, defnyddiwyd model ystadegol i fesur y gwahaniaethau hyn, i ystyried cyrhaeddiad diweddarach a phrofi arwyddocâd ystadegol. Er bod rhai o'r gwahaniaethau yn arwyddocaol yn ystadegol, roedd meintiau effaith yn fach. Gwelsom hefyd nad oedd tystiolaeth gref o duedd yn y data hwn o'i gymharu â chanlyniadau TGAU. Felly, cymeradwywyd rhyddhau'r data hwn, o Lywodraeth Cymru i CBAC at ddibenion safoni, gan y Gweinidog Addysg. Fel ffynhonnell dystiolaeth, roedd hyn yn caniatáu addasu canlyniadau rhagfynegol yr ysgol neu'r coleg i gyfrifo am allu'r garfan gyfredol yng ngham 1.

Mae nifer o gymwysterau TGAU yng Nghymru yn rhai unedol ac felly roedd tystiolaeth o unedau blaenorol y cymhwyster ar gael. Ar gyfer pynciau lle ceir tystiolaeth gyson o gyrhaeddiad blaenorol o unedau blaenorol cymhwyster ac mae'r unedau hyn yn ffurfio rhan sylweddol o'r cwrs, yna defnyddiwyd Model 1, mewn ffordd debyg i'r un a ddefnyddiwyd i Safon Uwch. Dangosodd profion fod y dystiolaeth hon o unedau wedi'u bancio yn cynhyrchu graddau mwy cywir a dilys yn unig mewn pynciau lle'r oedd yr unedau dan sylw yn cynrychioli digon o'r cymhwyster ac wedi cael eu cymryd gan ddigon o'r dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer y cymhwyster. Defnyddiwyd Model 1 ar gyfer cymwysterau TGAU mewn Bioleg, Cemeg, Ffiseg, Gwyddoniaeth Ddwyradd a Llenyddiaeth Saesneg, lle byddai'r dystiolaeth wedi'i bancio yn dod o unedau a gwblhawyd yn gynharach yn y cwrs. Fel ar gyfer lefelau UG, mae'r dull yn cynnwys 'gwiriad' i atal unrhyw ddysgwr rhag cael gradd yn is nag yr oeddent eisoes wedi 'bancio'.

---

<sup>9</sup> Cydberthynas o 0.89

## Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Mae'r cymwysterau hyn yn wahanol i gymwysterau Safon Uwch a TGAU unedol oherwydd gall dysgwyr gymryd unrhyw gyfuniad o unedau mewn unrhyw drefn. Roedd yr hyblygrwydd hwn yn golygu bod tystiolaeth wedi'i bancio ar gyfer pob un o'r unedau ond dim ond o is-set o'r garfan. Profwyd mai amrywiad o Fodel 1 oedd y mwyaf cywir ar gyfer y cymwysterau hyn.

Mae rhai achosion lle addaswyd y dull cyffredinol, oherwydd problemau gydag argaeledd data.

1. Nid oedd gan rai ymgeiswyr preifat GACau na data trefn restrol a gyflwynwyd gan ysgol neu goleg. Buom yn archwilio opsiynau ar gyfer y dysgwyr hyn a chaniatáu i raddau gael eu cyfrifo gan ddefnyddio data cyrhaeddiad blaenorol lle'r oedd yn bodoli. Amlinellwyd hyn yn ein [datganiad Polisi Ymgeiswyr Preifat](#). Fodd bynnag, roedd nifer fach o ymgeiswyr preifat yn parhau nad oedd modd dyfarnu gradd iddynt yr haf hwn, a gwnaethom dynnu sylw swyddogion derbyn AB ac AU at hyn gan eu hannog i ystyried mathau eraill o dystiolaeth o allu i'r dysgwyr hyn. Gwnaethom [ysgrifennu](#) at bob darparwr AU, trwy UCAS, i egluro hyn. Efallai bod nifer o ymgeiswyr preifat wedi cael eu cofrestru ar gyfer TGAU fel rhan o'r gofynion derbyn ar gyfer cyrsiau Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA). Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ei bod yn bosibl na fydd y gofynion derbyn presennol ar gyfer dysgwyr sy'n ymuno â chysiau AGA yn gyraeddadwy'r haf hwn ac mae'r [gofynion mynediad arferol ar gyfer darpariaeth AGA](#) yng Nghymru wedi'u diwygio i ystyried hyn.
2. Mewn nifer fach o achosion, lle nad oedd gan ysgol neu goleg unrhyw ddata UG, defnyddiwyd Model 2.
3. Gall rhagfynegi canlyniadau yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol ar gyfer ysgolion neu golegau sydd â chofrestriadau bach iawn mewn cymhwyster, fod yn annibynadwy. Felly, ar gyfer cymwysterau lle defnyddiwyd Model 2 i gyfrifo'r graddau (safon UG a'r mwyafrif o gymwysterau TGAU), ac roedd nifer fach o gofrestriadau gyda'r ysgol neu'r coleg, rhoddwyd mwy o bwyslais ar GACau. Ar gyfer ysgolion a cholegau gyda nifer fach iawn o gofrestriadau, defnyddiwyd y GACau yn uniongyrchol heb unrhyw fewnbwn o'r model. Ar gyfer y rhai gyda nifer fawr o gofrestriadau, defnyddiwyd y model heb unrhyw bwysoliad ar y GACau, ac ar gyfer y rhai gyda nifer o gofrestriadau rhwng y ddau begwn hyn, roedd y pwysoliad ar y GACau yn gostwng wrth i nifer yr ymgeiswyr gynyddu. Roedd y manylion technegol ar gyfer hyn yr un peth â'r rhai a ddefnyddiwyd yn Lloegr ac fe'u derbyniwyd yn dilyn dadansoddiad i wirio eu bod yn briodol i Gymru. Roedd Model 1, a ddefnyddiwyd i gyfrifo graddau ar gyfer Safon Uwch a rhai cymwysterau TGAU, yn seiliedig ar berfformiad mewn unedau UG neu unedau TGAU oedd wedi'u sefyll yn gynharach yn y cwrs, heb ddibynnu ar berfformiad canolfan hanesyddol, felly nid oedd angen addasiad tebyg ar gyfer defnyddio cofrestriadau bach.



## Monitro prosesau gwneud penderfyniadau am gymwysterau

Datblygodd CBAC brosesau i gytuno ar y canlyniadau ar gyfer pob cymhwyster. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys pwyllgor o staff allweddol gan gynnwys uwch swyddogion a thimau pwnc CBAC. Fe wnaethant adolygu canlyniadau arfaethedig yn erbyn rhagfynegiadau ystadegol ar gyfer 2020 a data hanesyddol i wneud penderfyniadau ar y canlyniadau terfynol ar gyfer pob cymhwyster. Bu Cymwysterau Cymru yn arsylwi ymhob un o'r 28 cyfarfod hyn er mwyn bod yn fodlon bod prosesau'n cydymffurfio â gweithdrefnau CBAC a bod tystiolaeth briodol yn cael ei hystyried.

Ar ôl i ganlyniadau gael eu cyfrifo a'u cynnig i ni, gwnaethom gynnal adolygiad o ganlyniadau lefel pwnc, cyn eu cadarnhau mewn cyfarfodydd Cynnal Safonau. Buom yn gweithio'n agos gyda CBAC i ddeall y canlyniadau ar gyfer pob cymhwyster, ac i fod yn fodlon bod canlyniadau cenedlaethol yn debyg yn fras i flynyddoedd blaenorol er mwyn amddiffyn safonau cymwysterau a chefnogi tegwch i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

## Canlyniadau

Cyhoeddwyd [trosolwg](#) gennym o ganlyniadau UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch ar 13 Awst 2020. Mae'r adroddiad yn cynnwys:

- dadansoddiad cydraddoldeb cychwynnol yn canolbwyntio ar sut mae bylchau cyrhaeddiad cyffredinol yn gysylltiedig â blynyddoedd blaenorol. Mae'r trosolwg yn cynnwys rhywfaint o ddadansoddiad yn ôl cymhwysedd am brydau ysgol am ddim, oedran a rhyw.
- dadansoddiad o'r GAC a ddarparwyd gan ysgolion a cholegau ledled Cymru'r haf hwn.

Bydd trosolwg tebyg o ganlyniadau ar gyfer cymwysterau TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau CA4 ar 20 Awst 2020.

Cyhoeddodd CBAC adroddiad technegol gyda manylion sut y maent wedi cyfrifo graddau cymwysterau UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Uwch ar 13 Awst 2020 a bydd yn cyhoeddi adroddiad cyfatebol ar gymwysterau TGAU a Thystysgrif Her Sgiliau CA4 ar 20 Awst 2020.

## Sut wnaethon ni gyfathrebu

Rydym wedi cyfathrebu â dysgwyr a rhanddeiliaid eraill drwy wahanol sianeli yn rheolaidd, ac i roi sicrwydd y gallant fod yn hyderus yn y broses a ddefnyddir i ddyfarnu graddau ar gyfer cymwysterau cyffredinol eleni.

Gwnaethom greu ardal [COVID-19](#) bwrpasol ar ein gwefan a'i diweddarau'n rheolaidd i ddarparu gwybodaeth gyfredol am yr holl ddatblygiadau. Roedd y wybodaeth a gyhoeddwyd yn cynnwys:

- blogiau
- cynnwys fideo
- llythyrau a gwybodaeth i ysgolion a cholegau
- datganiadau Cymwysterau Cymru
- datganiadau Ofqual a
- cwestiynau a ofynnir yn aml.

Mae pandemig COVID-19 wedi arwain at gynnydd mewn traffig i'n gwefan ac mewn gweithgaredd gan ddysgwyr a rhanddeiliaid ehangach yn ymgysylltu trwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol. Roedd cyfanswm yr argraffiadau (cyfleoedd i ddarllen ein cynnwys) trwy Twitter, Facebook a LinkedIn, o'r amser y gwnaeth ysgolion a cholegau gau ym mis Mawrth hyd ddiwedd mis Mai, ychydig dros 1.1 miliwn, bron i bum gwaith yn fwy na'r arfer. Mae ein Tîm Cysylltiadau Allanol wedi ymateb i dros 250 o negeseuon e-bost uniongyrchol a galwadau ffôn gan ystod o rhanddeiliaid ers cau ysgolion a cholegau ym mis Mawrth.

Ym mis Mai, gwnaethom ddarparu ymateb ffurfiol i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) ar eu hymateb i'n hymgynghoriad ar Drefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020. Ym mis Gorffennaf, gwnaethom ddarparu [ymateb](#) ffurfiol i waith craffu'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (CYPE) ar COVID-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc.

Yn ogystal â gwaith partneriaeth a amlinellwyd yn flaenorol, gwnaethom ymgysylltu â'r rhanddeiliaid allweddol canlynol ar ddatblygiadau i drafod eu pryderon a'r effaith ar gyflawni:

- ein Grŵp Cyfeirio Penaethiaid (HTRG)
- Consortia Addysg Rhanbarthol
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC)
- Sefydliadau Cynrychiolwyr Undebau Llafur (TURO)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)
- Gyrfa Cymru
- Senedd Ieuencid; Aelodau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
- Grwpiau cynrychiolwyr lleiafrifol a chynrychiolwyr rhieni ac
- Estyn

Er mwyn cefnogi dilyniant dysgwyr rydym wedi gweithio'n agos gydag addysg bellach ac addysg uwch i rannu gwybodaeth gyda neges glir y bydd cymwysterau eleni'r un mor

werthfawr a chadarn â'r rhai a ddyfarnwyd mewn unrhyw flwyddyn arall. Rydym wedi creu [blogiau](#) a ffeithluniau i gefnogi'r neges hon ac wedi [ysgrifennu](#) at bob darparwr AU yn nodi ein dull o ddyfarnu graddau'r haf hwn, fel yr amlinellwyd yn gynharach.

Wrth agosáu at ddiwrnodau canlyniadau, gwnaethom greu adran [Canlyniadau 2020](#) bwrpasol ar y wefan gyda'r nod o ddarparu gwybodaeth ategol i'r holl randdeiliaid sy'n ymwneud â chanlyniadau haf 2020.

## Beth nesaf? - Ymagwedd at 2020/2021

Ym mis Mawrth buom yn trafod y risgiau a'r materion sy'n gysylltiedig â mynnu bod CBAC yn cynnig cyfres hydref gyda'r Gweinidog Addysg a chytunwyd y byddai'r aflonyddwch ar addysgu a dysgu yn yr hydref yn rhy arwyddocaol, a bod materion posib o ran tegwch oherwydd ni fyddai dysgwyr o reidrwydd wedi cael mynediad at yr un cyfleoedd i baratoi. Rhannwyd y farn hon gan CBAC.

Tua'r un amser, nododd Ofqual y byddent yn ymgynghori ar ofyniad bod cyrff dyfarnu yn cynnig cymwysterau mewn cyfres ychwanegol i ganiatáu i'r dysgwyr hynny sy'n anfodlon â'r graddau wedi'u cyfrifo a ddyfarnwyd yn haf 2020 sefyll eu harholiadau. Yn dilyn ymgynghori, fe wnaethant gadarnhau y byddai cyfres hydref yn cael ei chynnal ym mis Hydref a mis Tachwedd 2020. Ym mis Gorffennaf 2020, adolygodd Bwrdd Cymwysterau Cymru'r penderfyniad a wnaed ym mis Mawrth a chadarnhau na ddylem ei gwneud yn ofynnol i CBAC gynnig cyfres hydref arbennig.

## Cyfres Tachwedd 2020

Gwnaethom benderfynu y bydd cyfres Tachwedd 2020 yn gweithredu fel arfer, ar yr amod na fydd COVID-19 yn tarfu ymhellach, a gwnaethom gyfathrebu hyn i ysgolion a cholegau mewn llythyr. Bydd cymwysterau TGAU Saesneg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd a Chymraeg Iaith ar gael, fel arfer. O ystyried amseriad y gyfres hon sydd wedi'i hamserlennu, credwn y bydd y gyfres hon yn fwyaf perthnasol i ddysgwyr sy'n dymuno ail-sefyll unrhyw un o'r cymwysterau hyn. Ni fydd yr asesiadau yn y gyfres hon yn cael eu diwygio, felly bydd angen i ysgolion a cholegau ystyried yn ofalus a yw'n briodol cofrestru dysgwyr Blwyddyn 11 lle mae tarfu sylweddol ar addysgu a dysgu wedi digwydd.

## Cyfres Haf 2021

Wrth iddi ddod yn amlwg y byddai COVID-19 yn parhau i gael effaith ar addysg ac asesu yn y flwyddyn academaidd nesaf, dechreuon ni edrych ar ba addasiadau i gymwysterau y gallai fod angen eu gwneud i leihau'r effaith ar ysgolion a cholegau a'u dysgwyr.

Rydym yn gwybod y bu tarfu ar ddysgu dysgwyr Blwyddyn 11 a 13 cyfredol yn haf 2020 ac rydym wedi cymryd camau i leihau'r effaith barhaus i haf 2021. Rydym hefyd yn gwybod y gallai fod tarfu pellach ar addysgu ac asesu yn y flwyddyn i ddod ac y gallai asesiad di-arholiad yn rhai o'r cymwysterau mwy ymarferol fod yn fwy heriol i ysgolion a cholegau ei gyflawni os oes cyfyngiadau cloi neu gyfyngiadau iechyd cyhoeddus pellach ar waith. Gwnaethom ddarparu diweddariadau ar hyn mewn [blog](#) a gyhoeddwyd ar 6 May 2020.

Ar 10 Gorffennaf 2020, cyflwynodd Gweinidog Addysg Cymru [Gyfarwyddyd](#) i Cymwysterau Cymru ynghylch ystyriaethau ar gyfer cymwysterau cyffredinol ar gyfer 2021. Ar ôl ystyried hyn, a'r safbwyntiau polisi a lywiodd ein trefniadau ar gyfer gwanwyn a haf 2020, gwnaethom strwythuro ein dull rheoleiddio ar gyfer 2021 o amgylch set o egwyddorion trosfwaol y dylai CBAC eu cymhwyso wrth addasu asesiadau, a gofynion manylach y mae'n rhaid i CBAC gydymffurfio â hwy wrth wneud yr addasiadau hynny. Ar 15 Gorffennaf 2020, gwnaethom gyhoeddi ein [Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn 2021](#) ac [Amodau Arbennig ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn 2021](#) ac ysgrifennu [llythyr](#) at ysgolion a cholegau ar gynllunio ar gyfer haf 2021.

Mae'r addasiadau a wneir i gymwysterau gan CBAC yn ceisio lliniaru amser addysgu a dysgu a gollwyd trwy leihau pwysau asesu wrth gynnal datblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ar draws cwricwlwm eang ac addas. Nid yw'r newidiadau yn rhoi mantais nac anfantais i ddysgwyr yn erbyn eu cyfoedion sy'n cymryd mathau eraill o gymwysterau neu mewn gwahanol awdurdodaethau ac nid ydynt yn tansellio dilysrwydd, dibynadwyedd a hygredded y cymwysterau yng Nghymru a thu allan i Gymru. Ymgynghorodd CBAC ag athrawon ar eu haddasiadau arfaethedig, a gafodd gefnogaeth eang.

O ran Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, gwnaeth CBAC addasiadau yn unol â'n polisi a chyfathrebu'r rhain i ysgolion a cholegau ym mis Awst 2020. Darparodd CBAC wybodaeth ac arweiniad manwl i ysgolion a cholegau, ar sail cymwysterau unigol, ar gyfer TGAU ar 21 Gorffennaf 2020 ac ar gyfer UG a Safon Uwch ar 6 Awst 2020.

Yn ogystal ag ystyried addasiadau addas i asesu cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, rydym hefyd wedi bod yn gweithio gyda CBAC ar gynlluniau brys y gallai fod eu hangen oherwydd COVID-19. Gallai'r rhain gynnwys cyfyngiadau cymdeithasol ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol, a allai gael lefelau gwahanol o effaith ar baratoadau ar gyfer arholiadau yn haf 2021.